

Dŵr ar gyfer bywyd a bywoliaethau



Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru

Dogfen gwmpasu Aseiad
Amgylcheddol Strategol
Ymgynghoriad

Ar 1 Ebrill 2013, daeth Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd â gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella mewn modd cynaliadwy, a hynny heddiw ac yn y dyfodol.

Byddwn yn gweithio dros gymunedau Cymru i warchod pobl a'u cartrefi cymaint â phosibl rhag digwyddiadau amgylcheddol fel llifogydd a llygredd. Byddwn yn rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu gan adnoddau naturiol Cymru, eu defnyddio ac elwa arnynt.

Byddwn yn gweithio dros economi Cymru ac yn sicrhau bod modd defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy i gynnal swyddi a menter. Byddwn yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac ystyried terfynau amgylcheddol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau pwysig.

Byddwn yn gweithio i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb. Byddwn yn gweithio tuag at wneud yr amgylchedd a'r adnoddau naturiol yn gadarnach rhag newid hinsawdd a phwysau eraill.

Cyfoeth Naturiol Cymru
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
E-bost:
westernwalesrbd@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

Cedwir pob hawl. Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd blaenorol Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae copïau pellach o'r adroddiad hwn ar gael drwy gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 0653000 neu drwy E-bost:

westernwalesrbd@naturalresourceswales.gov.uk

Cynnwys

1	PAM YDYN NI’N GWNEUD ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL?	
2	CANOLBWYNTIO AR EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL ALLWEDDOL	
3	DARPARU CYD-DESTUN STRATEGOL	
4	EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL ALLWEDDOL	
	Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru	7
5	SUT BYDDWN YN GWNEUD YR ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL?.....	
6	CYFLEU’R CANLYNIADAU	
	Eich barn	14
	Sut mae ymateb	14
	At beth y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru’n defnyddio’r ymatebion	15
	Sut bydd Cyfoeth Naturiol Cymru’n defnyddio’ch gwybodaeth.....	15
	ATODIAD A: POLISIÄU, CYNLLUNIAU A RHAGLENNI I’W HYSTYRIED GAN YR ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL.....	16

1 Pam ydyn ni'n gwneud asesiad amgylcheddol strategol?

Prif ddiben asesiad amgylcheddol strategol yw datblygu cynllun sy'n cyflenwi gwell canlyniadau amgylcheddol. Drwy weithio ochr yn ochr â datblygiad y cynllun, gall yr asesiad ysgogi newidiadau sy'n lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol ac sy'n gwneud y mwyaf o'r budd a gaiff pobl o'r amgylchedd.

Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori Heriau a Dewisiadau Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru i gasglu gwybodaeth am y materion rheoli dŵr mwyaf arwyddocaol a'r camau posibl i fynd i'r afael â hwy. Defnyddir hon i lywio'r adolygiad a'r broses o ddiweddarau'r Cynllun Rheoli Basn Afon. Ar gyfer Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru, nodwyd bod y materion rheoli dŵr mwyaf arwyddocaol yn berthnasol i'r canlynol:

- Addasiadau ffisegol
- Llygredd o garthion a dŵr gwastraff
- Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth
- Llygredd o ardaloedd gwledig
- Llygredd o fwyngloddiau

Gall y cynllun ar gyfer gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr ddwyn canlyniadau bwriadol neu anfwriadol i bobl neu'r amgylchedd ehangach. Gall y rhain fod yn gadarnhaol, er enghraifft drwy wella cyfleoedd hamdden mewn ardal, neu gallant fod yn negyddol, er enghraifft gallent fentro difrodi nodweddion hanesyddol.

Byddwn yn defnyddio'r 'Asesiad Amgylcheddol Strategol' i ddylanwadu ar ddatblygiad y Cynllun Rheoli Basn Afon i wneud y mwyaf o ganlyniadau cadarnhaol sy'n gallu codi o wella'r amgylchedd dŵr, ac i helpu i osgoi neu leihau'r effeithiau negyddol.

Gwnawn hefyd asesiad amgylcheddol strategol i fodloni gofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (sy'n cael eu galw'r 'Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol').

Manteisiwn ar y cyfle hwn i ymgynghori ar gwmpas yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gam cyntaf i ddylanwadu ar y cynllun. Bydd hyn yn ein helpu i ddysgu mwy o'r wybodaeth y dylem fod yn ei hystyried, a deall pa rai o effeithiau amgylcheddol allweddol y cynllun sy'n peri gofid.

Yn Adran 6 nodir ym mha ffyrdd y gallwch roi sylwadau am y ddogfen hon ac mae yno ddau gwestiwn ymgynghori. Er mwyn ichi ystyried eich ymateb wrth ichi ddarllen y ddogfen hon, darperir y rhain isod hefyd:

Cwestiynau ymgynghori

1. A ydych chi'n cytuno ein bod wedi canolbwyntio ar yr effeithiau amgylcheddol allweddol?
2. A oes unrhyw wybodaeth arall y dylem fod yn ei hystyried yn rhan o'r asesiad?

2 Canolbwyntio ar effeithiau amgylcheddol allweddol

Byddai'n dipyn o orchwyl gorfod ystyried pob un o effeithiau amgylcheddol gweithredu cynllun ar gyfer gofalu am ddŵr. Mae arnom eisiau canolbwyntio ar yr effeithiau hynny sy'n sylweddol. Wrth sylweddol golygwn y byddent yn arwain at newid amlwg (yn gadarnhaol ac yn negyddol) ym mywydau pobl ac yn yr amgylchedd.

Hoffem ganolbwyntio ar yr effeithiau hynny sy'n bwysig ar lefel ardal y basn afon ac a fydd yn effeithio ar y cynllun i wella'r amgylchedd dŵr. Bydd effeithiau amgylcheddol y camau unigol sy'n codi o'r cynllun ar lefel leol yn cael eu hystyried cyn iddynt gael eu cymryd. Wrth gynllunio prosiectau penodol, ceir mwy o gyfle i fod yn fwy manwl gywir am yr effeithiau ac am y camau sy'n ofynnol i'w lliniaru neu eu rheoli.

Yn y ddogfen hon, nodir yr effeithiau yr ystyriwn eu bod yn sylweddol yn seiliedig ar, ymhlith pethau eraill, ein dealltwriaeth o Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru a'n profiad o ystyried effeithiau'r Cynllun Rheoli Basn Afon, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009. Rydym hefyd wedi nodi'r camau nesaf yn y broses drwy amlinellu'r ffordd y bwriadwn wneud yr asesiad a'r adroddiad am y canlyniadau.

3 Darparu cyd-destun strategol

Wrth baratoi i ofalu am yr amgylchedd dŵr dros y chwe blynedd nesaf, mae amrywiaeth o bolisiâu, cynlluniau a rhaglenni eraill y mae angen inni eu hystyried. Ymhlith y rhain mae'r rhai a lunnir gan y llywodraeth, asiantaethau llywodraeth ac awdurdodau lleol. Gallent:

- Gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd dŵr ac felly hwyrach y bydd angen inni ystyried sut y byddwn yn addasu'n cynlluniau
- Gwrthdaro â chymau yr hoffem eu cynnwys yn y cynllun
- Rhoi gwybod inni am faterion amgylcheddol allweddol y dylem eu hystyried neu ddarparu gwybodaeth amgylcheddol ychwanegol
- Ein helpu i nodi cyfleoedd i weithredu sydd o fudd i amcanion mwy nag un cynllun
- Ein helpu i nodi effeithiau cronrus posibl y cynlluniau

Rydym wedi nodi'r cynlluniau sy'n berthnasol i Aber Basn Afonydd Gorllewin Cymru, yn ein barn ni, yn Atodiad A i'r ddogfen hon.

Byddwn yn llunio Adroddiad Amgylcheddol i'w gyhoeddi gyda'r Cynllun Rheoli Basn Afon drafft, a fydd yn rhoi esboniad byr o'r materion allweddol sy'n codi o'r cynlluniau, y polisiâu a'r rhaglenni a'r ffordd yr ydym wedi'u hystyried.

4 Effeithiau amgylcheddol allweddol

Mae amgylcheddau dŵr yn darparu amrywiaeth o fuddion y mae'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn ceisio eu gwarchod a'u gwella, gan gynnwys buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae cyswllt cryf rhwng y buddion hyn a'r ffactorau amgylcheddol y byddwn yn mynd i'r afael â hwy yn rhan o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Hefyd, byddwn yn asesu'r effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd ehangach.

Roedd y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn nodi nifer o ffactorau amgylcheddol i'w hystyried yn ystod yr asesiad. Yn seiliedig ar ein profiad o'r cylch cyntaf o Gynlluniau Rheoli Basn Afon, a'n profiad ehangach o geisio gwella'r amgylchedd dŵr, gwyddom nad oes gan yr holl ffactorau hyn berthynas bwysig â'r mathau o gamau sy'n cael eu cynnwys yn y cynlluniau hyn. Yn ein hasesiad, mae arnom eisiau canolbwyntio ar yr effeithiau hynny sy'n debygol o fod yn sylweddol, boed yn rhai cadarnhaol neu negyddol. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r effeithiau amgylcheddol y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau, sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Cynllun Rheoli Basn Afon ac a ydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r effaith yn rhan o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Lle cynigiwn gynnwys pwnc amgylcheddol yn yr asesiad, ni fwriedir i'r effeithiau allweddol a restrir yn y tabl fod yn rhestr gynhwysfawr o effeithiau posibl, ond bwriedir yn syml iddynt roi rhyw gyfiawnhad dros ei gynnwys. Yn y testun ar ôl Tabl 1, rydym wedi rhoi ychydig o wybodaeth gefndir am yr amgylchedd cyfredol ac wedi nodi sut mae'r effeithiau amgylcheddol allweddol yn berthnasol i Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru yn fwy penodol.

Bydd yr asesiad yn canolbwyntio ar y camau hynny yn y Cynllun Rheoli Basn Afon sy'n arwain at weithgarwch 'ar lawr gwlad', fel adeiladu rhywbeth / gwaredu rhywbeth, newidiadau rheoli tir neu adfer afon. Gallai mathau eraill o gamau fod yn canolbwyntio'n fwy ar hyrwyddo newidiadau yn ymddygiad y bobl sy'n defnyddio'r amgylchedd dŵr, er enghraifft ymgyrchoedd addysg, datblygu canllawiau ac yn y blaen. Mae'r rhain yn ddiamedheuol o fuddiol, ond mae'n anodd asesu, gydag unrhyw sicrwydd, a ydy'r rhain yn debygol o arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol. Ni fwriadwn felly ystyried y mathau hyn o gamau ymhellach yn yr asesiad. Bydd yr Adroddiad Amgylcheddol yn egluro pa gamau a aseswyd a pha effeithiau sy'n rhy ansicr i gyfiawnhau eu hystyried.

Tabl 1: Cwmpasu effeithiau amgylcheddol allweddol ar gyfer yr Asesiad Amgylcheddol Strategol

Pwnc amgylcheddol	Effeithiau allweddol i'w hystyried	A fydd yr AAS yn rhoi sylw iddynt?
Bioamrywiaeth, fflora a ffawna	<ul style="list-style-type: none"> Effeithiau ar ardaloedd a warchodir am eu gwerth cadwraeth natur (e.e. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Ewrop a safleoedd Ramsar a'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a ddynodir yn genedlaethol) Effeithiau ar rywogaethau a chynefinoedd a warchodir sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd dŵr Effeithiau ar rywogaethau a gyflwynwyd o'r tu allan i'r DU sy'n niweidiol i'r amgylchedd, ac effeithiau'r rhywogaethau hynny Effeithiau ar warchod a gwella bioamrywiaeth yn ehangach. 	Bydd
Poblogaeth ac iechyd dynol	<ul style="list-style-type: none"> Effeithiau ar ddefnyddio dŵr at ddibenion hamdden Effeithiau ar dwf, adfywio a thwristiaeth Cael yn well at amgylcheddau dŵr a'r buddion iechyd cysylltiedig Effeithiau ar ddŵr a dynnir i'w yfed 	Bydd

	<ul style="list-style-type: none"> Effeithiau ar ddiwydiant sy'n dibynnu ar ddŵr, e.e. amaethyddiaeth, ynni a phorthladdoedd. 	
Daeareg a Phriddoedd	<ul style="list-style-type: none"> Effeithiau tir a lygrwyd ar yr amgylchedd dŵr Effeithiau ar ardaloedd o dir sy'n agored i erydiad Effeithiau ar barthau perygl nitradau Effeithiau ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer diddordeb daearegol Dylanwadau ar y ffordd y rheolir tir. 	Bydd
Dŵr¹	<ul style="list-style-type: none"> Effeithiau ar siâp a llif ardaloedd dyfrol Effeithiau ar ansawdd a maint dŵr daear Effeithiau ar ardaloedd dyfrol o ganlyniad i dynnu dŵr Effeithiau ar ansawdd dyfroedd arfordirol, gan gynnwys dyfroedd ymdrochi Perthynas â rheoli risg llifogydd. 	Bydd
Aer	Er gallai camau unigol gael effaith leol fechan ar ansawdd aer, ar lefel strategol, mae'n annhebygol iawn y byddai'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn cael effaith sylweddol ar ansawdd aer yn Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru.	Na Fydd
Ffactorau hinsoddol	<ul style="list-style-type: none"> Lliniaru ac addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid Risg llifogydd Newidiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn perthynas â rheoli dŵr. 	Bydd
Asedau perthnasol	<ul style="list-style-type: none"> Effeithiau ar seilwaith cysylltiedig â dŵr fel camlesi, gweithfeydd ynni dŵr, amddiffynfeydd rhag llifogydd, porthladdoedd a harbwrs ac yn y blaen. 	Bydd
Treftadaeth ddiwylliannol	<ul style="list-style-type: none"> Effeithiau ar safleoedd a ddynodwyd am eu pwysigrwydd hanesyddol Effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol ehangach sy'n gysylltiedig ag ardaloedd dyfrol a mwynloddiau. 	Bydd
Tirwedd	<ul style="list-style-type: none"> Effeithiau ar dirweddau a ddynodwyd am eu hansawdd Effeithiau ar ansawdd a chymeriad tirwedd ehangach Effeithiau gweledol ar safle'r dirwedd. 	Bydd

¹ Diben y Cynllun Rheoli Basn Afon yw gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr. Dylai hwn arwain felly at effaith gadarnhaol sylweddol ac felly mae gofyn ei gynnwys yn yr Aseiad Amgylcheddol Strategol.

Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru

Er mwyn nodi'r effeithiau amgylcheddol sy'n debygol o fod yn sylweddol i Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru, mae gofyn deall natur yr amgylchedd presennol. Yn y ddogfen Heriau a Dewisiadau, nodir natur yr amgylchedd dŵr presennol a'r ffactorau sy'n effeithio ar y buddion a gaiff pobl ganddo. Rydym wedi ychwanegu rhagor o wybodaeth at hyn sy'n ystyried yr amgylchedd ehangach. I gael gwybod am ganlyniadau dosbarthiad diweddaraf y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr ac ystadegau allweddol eraill, trowch at ddogfen ffeithiau ac

ystadegau Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru. I weld y ddogfen hon, ewch i'n tudalen wybodaeth.

Mae Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru'n cynnwys 16,653 cilometr sgwâr ac yn gorchuddio hanner orllewinol gyfan Cymru o glogwyni dramatig Bro Morgannwg yn y de, i Sir Ddinbych ac Ynys Môn yn y gogledd. Mae ynddi rai o'r golygfeydd mwyaf dramatig yn y DU, mae'n bwysig ar gyfer bywyd gwyllt, mae ganddi bysgota rhagorol ac mae'n gyrchfan enwog i dwristiaid. Ardal wledig ydyw gan mwyaf, ac mae'r prif ganolfannau poblogaeth yn rhannau o'r arfordir a chymoedd y de.

Mae ardal y basn afonydd yn cynnwys naw gwahanol ddalgylch (sydd wedi cynyddu o bump yn y Cynllun Rheoli Basn Afonydd cyntaf), a phob un â'i nodweddion a'i faterion ei hun mewn perthynas â rheoli'r amgylchedd dŵr. Mae'r portread hwn o ardal y basn afonydd o safbwynt amgylcheddol yn disgrifio elfennau allweddol o'r amgylchedd naturiol a dynol yn gefndir i'r dewisiadau y mae angen inni eu gwneud wrth reoli basnau afonydd.

Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna

Mae ardal y basn afonydd yn cynnal bywyd gwyllt gwlypdir amrywiol ac adlewyrchir pwysigrwydd cynefin gwlypdir gan nifer ac amrywiaeth y dynodiadau cadwraeth natur rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Dynodwyd tua 70% o forlin Cymru naill ai'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) neu'n Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), gydag amrywiaeth o gynefinoedd fel morfeydd heli arfordirol, corsydd pori, traethellau, gwelyau cyrs, clogwyni, twyni a graean bras. Mae camau i reoli'r arfordir, gan gynnwys atgyfnerthu traethlin, amddiffyn rhag llifogydd, draenio ac adfer tir, wedi bygwth cynefinoedd arfordirol ac maent yn creu heriau ar gyfer rheoli yn y dyfodol.

O'r dynodiadau Ewropeaidd sy'n bresennol yn ardal y basn afonydd, mae 60 o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a 12 o'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yno'n dibynnu ar ddŵr. Mae gan lawer o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn ardal y basn afonydd gysylltiadau agos hefyd â'r amgylchedd dŵr.

Mae ardal y basn afonydd yn cynnwys llawer o afonydd sy'n cynnal eogiaid a brithyllod (498 o Ddyfroedd Pysgod Dŵr Croyw), ac mae afonydd Cymru'n cyfrif am fwy na hanner y Sewin sy'n cael ei ddal yng Nghymru a Lloegr. Yn ogystal â physgod, mae ardaloedd dyfrol ac ardaloedd gwlypdir yn ardal y basn afonydd yn cynnal nifer o rywogaethau a warchodir (fel Dyfrgwn, sy'n cynyddu mewn nifer ledled Cymru) a hefyd rhywogaethau â blaenoriaeth a restrir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (fel Herlod a Gwangod, Llygod y Dŵr, Cimychiaid Afon Crafan Wen a Misglod Cywasgedig yr Afon). Mae rhywogaethau ymledol yn y dalgylch yn cynnwys Llysiau'r Dial, Ffromlys Chwarennog a Chimychiaid Afon Arwyddol Gogledd America.

Ar y môr, dynodwyd rhannau o'r amgylchedd morol yn y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn ymgorffori gwahanol lefelau o warchodaeth ac maent yn cynnwys AGA, ACA a SoDdGA gyda chhydrannau morol, yn ogystal â Gwarchodfeydd Natur Morol (Ynys Skomer ac Ynys Wair), ac yn y dyfodol Parthau Cadwraeth Morol. Mae deg safle posibl yn nyfroedd Cymru sy'n cael eu hystyried am statws Parth Cadwraeth Morol. Pe byddent yn cael eu dynodi, byddai'r ardaloedd hyn (3-4 i gyd) yn cael eu gwarchod yn helaeth, gan wahardd gweithgareddau niweidiol yno.

Poblogaeth ac Iechyd Dynol

Poblogaeth ardal y basn afonydd, yn fras, yw 1.3 miliwn o bobl, a'r prif ganolfannau trefol yw Abertawe, Bangor, Aberystwyth, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd / Port Talbot. Er bod rhywfaint o amrywio lleol, ar y cyfan mae poblogaeth Cymru'n cynyddu ym mhob ardal awdurdod lleol. Yn yr ardaloedd arfordirol mwy gwledig y mae'r boblogaeth yn tueddu i ostwng, tua Sir Benfro, Ceredigion, Gwynedd a Gŵyr. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn heneiddio'n raddol, ac y bydd nifer y bobl sy'n 65 oed a hŷn yn cynyddu tua 35 y cant erbyn

2023. Gall hyn achosi mwy o bwysau ar ddŵr, am fod aelwydydd llai o faint yn tueddu i ddefnyddio mwy o ddŵr y pen.

Mae rhai mathau o anghydraddoldeb iechyd sylweddol yn amlwg yn ardal y basn afonydd, gyda mwy o dystiolaeth yn gyffredinol o ardaloedd o amddifadedd ar hyd arfordir Gogledd Cymru, gogledd Ynys Môn, gogledd-orllewin Gwynedd, rhannau o Geredigion, de Sir Benfro a Chymoedd Abertawe.

Mae ardal y basn afonydd yn cynnwys adnoddau hamdden ar y dŵr a'r tir sy'n cyfrannu at wella ansawdd bywyd pobl a'u hiechyd dynol. Gallant hefyd ddarparu budd economaidd. Mae Llwybr Arfordir Cymru ledled y wlad yn denu niferoedd lawer o ymwelwyr, tua 3 miliwn o bobl cyn pen 12 mis o'i agor.

Mae twristiaeth yn rhan bwysig o'r economi leol i fwyafrif ardal y basn afonydd, yn enwedig yn Sir Benfro, Bannau Brycheiniog, Eryri, Ynys Môn a Gŵyr.

Daereg a Phriddoedd

O ystyried maint ardal y basn afonydd, nid yw'n syndod fod daereg y craigwely'n amrywio'n helaeth ar draws craigwely tywodfaen, calchfaen ac igneaidd, a bod hefyd amrywiaeth o ddyddodion arwynebol pwysig. Bu pyllau glo a mwyngloddiau metel yn bwysig iawn i ardal y basn afonydd yn hanesyddol, ac maent wedi gadael olion llygredd. Mae Maes Glo De Cymru'n estyn ar draws rhan fawr o Dde Cymru, ac mae'n dal i gael ei chloddio i ryw raddau, ond nid cymaint ag o'r blaen. Byddai plwm ac arian yn cael eu cynhyrchu ar un adeg o fwyngloddiau yn y Canolbarth, o gyfres o fwyngloddiau i'r tir o Aberystwyth. Byddai copr yn cael ei fwyngloddio yn Eryri ac ym Mynydd Parys ar Ynys Môn, ac aur tua Dolgellau a Phumsaint. Byddai nifer o fetelau eraill yn cael eu cynhyrchu gan gynnwys sinc, arsenig, antimoni a manganîs. Mae olion mwyngloddio yn ardal y basn afonydd wedi achosi llygredd parhaus i ddŵr wyneb a dŵr daear (trowch at y ddogfen Heriau a Dewisiadau i gael gwybod rhagor).

Mae Geoparc Fforest Fawr ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ne Cymru ac mae ei dreftadaeth ddaeregol o arwyddocâd Ewropeaidd. Yn ardal y basn afonydd mae tua 450 SoDdGA a ddynodwyd am eu nodweddion daereg a gwyddorau'r ddaear.

Mae topograffeg yn dylanwadu'n gryf ar y mathau o bridd yn ardal y basn afonydd. Effeithiwyd yn andwyol ar ansawdd pridd drwy reoli tir, dibynnu ar blaleiddiaid a cholli maetholion a gwastraff organig o ffynonellau amaethyddol, sydd oll yn effeithio hefyd ar ansawdd dŵr. Mae rhai o'r priddoedd hefyd yn agored i asideiddio.

Dŵr

Mae llygredd yn rhoi pwysau ar yr amgylchedd dŵr o ffynonellau amrywiol. Mae dŵr gwastraff yn effeithio ar ansawdd dŵr 21 o afonydd a 4 o lynnoedd yn ardal y basn afonydd. Mae trefi, dinasoedd a thrafnidiaeth hefyd yn cyfrannu, drwy ddŵr ffo dŵr daear, camgysylltiadau draeniad, arllwysyadau diwydiannol ar raddfa fach a storio tanwydd, olewau a chemegolion. Mae ffynonellau llygredd gwledig o amaethyddiaeth hefyd yn cael effaith sylweddol ac amrywiol. Mae llygredd o fwyngloddiau heblaw gweithfeydd glo yn effeithio ar fwy na 70 o ardaloedd dyfrol (trowch at y ddogfen Heriau a Dewisiadau i gael gwybod rhagor).

Dynodwyd 80 o draethau'n ddyfroedd ymdrochi'r CE, ac mae rhai o'r rhain wedi methu â chyrraedd safonau ansawdd dŵr oherwydd llygredd carthion.

Ffactorau Hinsoddol

Rhagwelir y gallai tymereddau ledled ardal y basn afonydd gynyddu rhwng 1.1. a 4.1°C erbyn y 2050au. Rhagwelir hefyd y bydd patrymau glawiad yn wahanol i'r patrymau

presennol. Mae newid hinsawdd yn effeithio ar faterion cysylltiedig â dŵr fel lleihau'r dŵr sydd ar gael a chynyddu risg llifogydd.

Asedau Perthnasol

Mae'r seilwaith yn ardal y basn afonydd yn cynnwys rheilffyrdd (fel y brif reilffordd o Lundain i Abertawe sy'n parhau i Ddoc Penfro), ffyrdd (gan gynnwys yr M4 a'r A55), seilwaith ynni (fel gorsafoedd pŵer ar arfordir Sir Benfro ac Wylfa ar Ynys Môn), porthladdoedd a therfynfeydd fferïau (gan gynnwys Caergybi, Doc Penfro, Aberdaugleddau, Port Talbot ac Abertawe) a datblygiad diwydiannol a masnachol (fel olew a dur, mae gan Gymru sector gweithgynhyrchu mwy o faint na chyfartaledd y DU).

Mae pysgota môr, pysgodfeydd rhwydi eog, pysgodfeydd cregyn gleision (fel Afon Menai) a gwelyau cocos (fel Cilfach Tywyn) yn bwysig i'r economi leol, gyda 25 o ardaloedd wedi'u dynodi'n Ddyfroedd Pysgod Cregyn yn ardal y basn afonydd. Yn ddiweddar, cafwyd galw cynyddol am ynni dŵr, gan ymchwilio i fwy na 100 o safleoedd.

Mae amaethyddiaeth yn rhan bwysig o'r economi wledig. Graddau is o dir amaethyddol sydd yno'n bennaf ac mae mwy o bori defaid a gwartheg na chnydau âr.

Mae amddiffynfeydd rhag llifogydd yn ardal y basn afonydd yn amddiffyn cartrefi, busnesau, diwydiant a thir fferm.

Er bod cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu, mae cynhyrchiad gwastraff parhaus a phrinder lle yn y safleoedd tirlenwi yn ardal y basn afonydd yn golygu y bydd rheoli gwastraff yn dal yn her parhaus. Mae'n debygol y bydd rhai Awdurdodau Lleol yn canfod bod angen iddynt nodi a chanfod safleoedd ar gyfer dewisiadau trin gwastraff yn lle tirlenwi.

Treftadaeth Ddiwylliannol

Ceir Safle Treftadaeth y Byd yn ardal y basn afonydd, sef Cestyll a Muriau Trefol Brenin Edward yng Ngwynedd (pedwar safle: Biwmares, Caernarfon, Harlech a Chonwy). Mae'r moroedd o gwmpas Cymru'n cynnwys llu o safleoedd ac olion archeolegol ac mae llawer o safleoedd arfordirol a llongdrylliadau wedi'u cofrestru a rhai wedi'u gwarchod dan Ddeddf Diogelu Llongdrylliadau 1973.

Mae mwy na 2,500 o Henebion Cofrestredig, yn ogystal â safleoedd niferus o bwysigrwydd hanesyddol neu archeolegol, yn ardal y basn afonydd (e.e. Adeiladau Rhestredig, a thua 200 o Erddi a Pharciau Hanesyddol Cofrestredig). I'r tir, mae llawer o strwythurau fel melinau, pontydd, coredau a llifddorau yn ardal y basn afonydd, sydd â statws rhestredig neu sydd o bwysigrwydd hanesyddol lleol. Mae olion mwyngloddio yn y dalgylch wedi effeithio ar ansawdd dŵr, ond gallai nodweddion mwyngloddio sydd wedi goroesi hefyd fod yn bwysig am eu gwerth treftadaeth.

Mae nifer fawr o 58 Tirwedd Hanesyddol Cymru'n perthyn i ardal y basn afonydd, gan orchuddio dros 300,000ha.

Gall nodweddion archeolegol sy'n gysylltiedig â'r gorlifdir a thir wedi'i drwytho gan ddŵr daear gael eu peryglu gan sychu, erydu neu orlifo.

Tirwedd

Mae tirwedd ardal y basn afonydd yn amrywio'n sylweddol o fynyddoedd a llynnoedd Eryri ac aberoedd arfordir y Canolbarth, i draethau a chlogwyni Sir Benfro, a threftadaeth ddiwydiannol Cymoedd De Cymru.


Dynodwyd ardaloedd sylweddol o ardal y basn afonydd (65,926ha) yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) sef tua 4% o ardal y basn afonydd. Mae'r rhain yn cynnwys Pen Llŷn, Penrhyn Gŵyr, Ynys Môn a rhan o Fryniau Clwyd. Mae tua 500km o Arfordir Cymru wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae tri Pharc Cenedlaethol (Bannau

Brycheiniog, Sir Benfro a rhannau o Eryri) yn gorchuddio 287,830ha o ardal y basn afonydd, sef tua 17% o ardal y basn afonydd. Cafodd Bannau Brycheiniog statws rhyngwladol awyr dywyll ym mis Chwefror 2013, sef un o 5 lle yn unig yn y byd sydd â'r dynodiad hwn.


Wrth ystyried y dewisiadau ar gyfer cynllunio rheoli'r basn afon, mae'r canlynol yn enghreifftiau o agweddau y dylid eu hystyried:

- Dylanwad posibl newidiadau rheoli dŵr ar gyflwr safleoedd cadwraeth natur dynodedig.
- Posibilrwydd effeithiau ar rywogaethau â blaenoriaeth/rhywogaethau a warchodir sy'n dibynnu ar ddŵr, a chyfleoedd i wella neu greu cynefin.
- Posibilrwydd effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n dibynnu ar fetel sydd wedi datblygu o ganlyniad i weithgareddau mwyngloddio.
- Presenoldeb rhywogaethau ymledol a sut gallwn helpu i'w hatal rhag lledu a mynd i'r afael â'r problemau a achosant.
- Gall iechyd a lles pobl wella os gallant gael yn well at ddŵr a'r amgylchedd naturiol, a gall fod cyfleoedd i wella hamdden.
- Mae daeareg a phriddoedd yn bwysig wrth geisio rhagweld effeithiau hinsawdd sy'n newid ar lifoedd afon.
- Gallai camau i wella ac adfer ardaloedd dyfrol greu goblygiadau ar gyfer echdynnu mwynau yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae graddau echdynnu mwynau yn y dyfodol yn debygol o barhau i ddylanwadu ar yr amgylchedd dŵr.
- Bydd hinsawdd sy'n newid yn effeithio ar yr amgylchedd dŵr a bydd canlyniadau dilynol ar y boblogaeth, ar ddefnydd tir ac ar amwynder.
- Bydd mwy o bwysau ar gyflenwad dŵr, darpariaeth puro dŵr, systemau draeniad ar gyfer dŵr ffo trefol, amddiffynfeydd rhag llifogydd, rheoli gwastraff a seilwaith allweddol arall o ganlyniad i boblogaeth sy'n tyfu.
- Mae newid y ffordd y rheolwn yr amgylchedd dŵr yn gallu effeithio o bosibl ar amaethyddiaeth a chynhyrchiad bwyd. Mae llawer o dir amaethyddol yn y gorlifdir.
- Gall newidiadau yn nulliau rheoli'r amgylchedd dŵr effeithio ar archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol.
- Ceir cysylltiad agos yn aml rhwng tirweddau pwysig a'r amgylchedd dŵr.

Ffigur 1. Map o Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru



Ffigur 2. Map o ddalgyllchoedd Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru



Bydd yr Adroddiad Amgylcheddol, i'w gyhoeddi gyda'r Cynllun Rheoli Basn Afon drafft, yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am yr amgylchedd. Mae Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru'n gymharol fawr ac felly bydd ein disgrifiad ar lefel strategol.

5 Sut byddwn yn gwneud yr asesiad amgylcheddol strategol?

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei wneud ochr yn ochr â datblygu dewisiadau i wella'r amgylchedd dŵr. Bydd yn pennu effaith amgylcheddol y rhain ac yn canolbwyntio'n benodol ar effeithiau'r buddion a ddarperir gan yr amgylchedd. Bydd yr Adroddiad Amgylcheddol yn nodi sut mae'r asesiad o effeithiau amgylcheddol (rhai cadarnhaol a rhai negyddol) wedi'i integreiddio wrth ddatblygu dewisiadau ar gyfer pob dalgylch yn y cynllun rheoli basn afon drafft. Bydd yr un dull asesu hwn yn cael ei ddefnyddio i ddewis y pecynnau arfaethedig o fesurau yn y cynllun drafft. Fel hyn, byddwn yn sicrhau bod effeithiau ar yr amgylchedd ehangach yn cael eu hystyried a bod yr asesiad yn dylanwadu ar y dewis o opsiynau.

Yn yr asesiad, byddwn yn rhoi sylw penodol i'r effeithiau ar yr elfennau hynny o'r amgylchedd sydd â dynodiadau rhyngwladol neu genedlaethol (e.e. rhywogaethau a warchodir, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Parciau Cenedlaethol neu Safleoedd Treftadaeth y Byd). Lle gellid effeithio ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer bioamrywiaeth (Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Safleoedd Ramsar) byddwn yn gwneud asesiad ar wahân sy'n ofynnol gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010), fel y'u diwygiwyd.

Byddwn yn nodi a oes perygl cronni effeithiau ar agwedd amgylcheddol penodol (fel nodweddion hanesyddol) neu mewn man penodol. Gallai'r rhain godi o ganlyniad i nifer o wahanol gamau yn y cynllun neu gyfuniad o effeithiau gyda chynlluniau a rhaglenni eraill.

Byddwn yn canolbwyntio ar yr effeithiau hynny sy'n sylweddol ar lefel ardal basn afon strategol a byddwn yn tybio bod asesiadau eraill ar lefel dalgylch neu brosiect (fel asesiadau o effaith amgylcheddol prosiect) yn canolbwyntio ar effeithiau mwy lleol. Ni fyddwn yn asesu'r effeithiau hynny sydd o natur dros dro, lle na fydd yr effaith yn para heibio cyfnod cynllunio rheoli'r basn afon (6 blynedd).

Oherwydd maint a chymhlethdod y cynllun hwn, nid yw'n bosibl darparu meini prawf diffiniol o arwyddocâd effaith. Fodd bynnag, gellir rhoi syniad o nodwedd effeithiau sylweddol a dylid cofio y gall y rhain fod yn fuddiol neu'n andwyol:

- Effeithiau a fyddai'n digwydd mewn nifer o fannau ledled ardal basn afon
- Effeithiau sy'n debygol o arwain at effaith andwyol ar gyfanrwydd nodweddion o werth cenedlaethol neu ryngwladol neu a fydd yn amlwg yn cynyddu nodweddion felly neu'n gwella eu gwerth
- Effeithiau sy'n debygol o wrthdaro ag amcanion, targedau neu ddyletswyddau cyfreithiol amgylcheddol
- Effeithiau sy'n debygol o arwain at newid amlwg yn iechyd a/neu les cymdeithasol neu economaidd cymunedau.

6 Cyfleu'r canlyniadau

Cyhoeddir y Cynllun Rheoli Basn Afon drafft ym mis Mehefin 2014. Bydd hwn yn dod gydag Adroddiad Amgylcheddol sy'n nodi canlyniadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Bydd hwn:

- Yn rhoi gwybod am gyflwr cyfredol y ffactorau amylcheddol y gellid effeithio arnynt
- Yn amlinellu sut gallai'r cynlluniau a'r rhaglenni a adolygwyd gennym effeithio ar y Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer gofalu am ddŵr
- Yn egluro sut mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi cael ei integreiddio gyda datblygiad y Cynllun Rheoli Basn Afon, a sut mae wedi dylanwadu arno
- Yn nodi'r dewisiadau strategol a fydd wedi'u gwerthuso a'r rhesymau dros ddewis y dull arfaethedig
- Yn nodi effeithiau amgylcheddol y Cynllun Rheoli Basn Afon drafft
- Yn nodi camau lliniaru neu reoli ychwanegol y gellir eu cymryd i wella'r canlyniadau amgylcheddol ymhellach, ond nad ystyriwyd eu bod yn briodol i'w hymgorffori yn y Cynllun Rheoli Basn Afon
- Yn disgrifio'r gwaith monitro a gynigir i nodi unrhyw effeithiau andwyol annisgwyl

Bydd yr Adroddiad Amgylcheddol hwn ar gael am sylwadau gyda'r Cynllun Rheoli Basn Afon drafft am gyfnod o 6 mis. Byddwn yn defnyddio'r sylwadau a'r wybodaeth a ddarperir i adolygu'r cynllun ac i ystyried sut gallai ein gwerthusiad o'r effeithiau amgylcheddol fod wedi newid.

Eich barn

Mae'r ddogfen gwmpasu hon ar gael ar gyfer ymgynghoriad ynghyd â dogfen ymgynghori 'Heriau a Dewisiadau' Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru am gyfnod o 6 mis hyd 22 Rhagfyr 2013. Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau amgylcheddol allweddol y dylem eu hystyried a pham. Hoffem petaech yn dweud wrthym hefyd am unrhyw wybodaeth arall sydd gennych neu sy'n hysbys ichi, os credwch y dylem ei hystyried.

Byddwn yn ystyried eich sylwadau wrth fireinio ymhellach ein hymagwedd at yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Bydd unrhyw sylwadau a geir yn cael eu hymgorffori yn y crynodeb o ymatebion a gyhoeddir ar gyfer ymgynghoriad 'Heriau a dewisiadau'.

Cwestiynau ymgynghori

1. A ydych chi'n cytuno ein bod wedi canolbwyntio ar yr effeithiau amgylcheddol allweddol?
2. A oes unrhyw wybodaeth arall y dylem fod yn ei hystyried yn rhan o'r asesiad?

Sut mae ymateb

Byddai'n well gan Gyfoeth Naturiol Cymru petaech yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn mewn e-bost i: westernwalesrbd@naturalresourceswales.gov.uk / ardalbasnafongorllewincymru@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Bydd hyn yn eich galluogi i wneud eich sylwadau'n fwy effeithiol, ac yn ein helpu i gasglu a chrynhoi ymatebion yn gyflym ac yn gywir. Fodd bynnag, os hoffech ymateb mewn ffordd arall, cysylltwch â'ch cyswllt rhanbarthol ar gyfer Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru, isod.

Gallwch weld y dogfennau ymgynghori a'r cwestiynau ymgynghori ar-lein. Ond, pe byddai'n well gennych gael fersiwn o'r ddogfen wedi'i hargraffu, ffoniwch 0300 065 3000.

Dychwelwch ymatebion ysgrifenedig erbyn 22 Rhagfyr 2013 i:

Jill Brown
Cyfoeth Naturiol Cymru
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

At beth y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n defnyddio'r ymatebion

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i lywio'r ymagwedd at yr Asesiad Amgylcheddol Strategol o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru. Bydd staff Cyfoeth Naturiol sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad hwn yn gweld yr holl ymatebion yn llawn. Gallai aelodau eraill o staff hefyd weld yr ymatebion i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Bydd crynodeb llawn o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Sut bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwneud yr holl sylwadau (ar wahân i wybodaeth bersonol) ar gael yn gyhoeddus ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn cynnwys sylwadau a geir ar-lein, mewn e-bost, drwy'r post a thros y ffacs, heblaw ichi ofyn yn benodol am gadw'ch ymateb yn gyfrinachol. Dim ond enwau sefydliadau sy'n ymateb a fydd yn cael eu cyhoeddi, ac nid enwau unigolion.

Os byddwch yn darparu cyfeiriad e-bost, byddwch yn cael cydnabyddiaeth o'ch ymateb. Ar ôl i'r ymgynghoriad gau, bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cysylltir â chi i roi gwybod pan fydd hwn ar gael. Byddwch hefyd yn cael gwybod am unrhyw ymgynghoriadau sydd i ddod ar y basn afon oni ofynnwch fel arall.

Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai bydd gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ond ni fydd yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol. Os ydych wedi gofyn am gadw'ch ymateb yn gyfrinachol, efallai bydd ei angen o hyd i ddarparu crynodeb.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:

Jill Brown
Cyfoeth Naturiol Cymru
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

Atodiad A: Polisiâu, cynlluniau a rhaglenni i'w hystyried gan yr Aseiad Amgylcheddol Strategol

Yn Nhabl 1 nodir y cynlluniau, y polisiâu a'r rhaglenni cenedlaethol, ac yn Nhabl 2 nodir y rheini sy'n berthnasol i'r dalgylch neu'r ardal basn afon yn unig. Yn hytrach na nodi pob cynllun neu raglen bosibl, bwriadwn ganolbwyntio ar y rheini sy'n debygol o ddylanwadu'n sylweddol ar y cynllun neu ar ein hystyriaeth o'r effeithiau amgylcheddol.

Tabl 1: Cynlluniau, polisiâu a rhaglenni cenedlaethol i'w hystyried yn yr Aseiad Amgylcheddol Strategol

Polisi / Cynllun / Rhaglen	Cyhoeddwyd gan	Blwyddyn
<i>Water for people and the environment: Water resources strategy for England and Wales</i>	Asiantaeth yr Amgylchedd	2009
Strategaeth y fframwaith rhywogaethau ymledol ac anffrodorol ar gyfer Prydain Fawr	Defra, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru	2008
Deall y peryglon, grymuso cymunedau, magu cadernid: Strategaeth genedlaethol Cymru ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol	Llywodraeth Cymru	2011
Datganiad Polisi Morol y DU	Llywodraeth Ei Mawrhydi, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru	2011
<i>Managing the Environment in a Changing Climate</i>	Asiantaeth yr Amgylchedd	2010
Polisi Cynllunio Cymru	Llywodraeth Cymru	2012
Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2008
Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2006
Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru	Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru	2010
Nodiadau Cyngor Technegol (Cadwraeth Natur a Chynllunio, Twristiaeth, Datblygiad a Risg Llifogydd, Trafnidiaeth, Gwastraff, Ynni Adnewyddadwy, Cynllunio Arfordirol)	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Amrywiol

Cynnal Cymru Fyw: Papur Gwyrdd ar Ddull Newydd o Reoli Adnoddau Naturiol yng Nghymru	Llywodraeth Cymru	2012
Strategaeth Pysgodfeydd Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2008
Strategaeth Twristiaeth Arfaethedig i Gymru (Twristiaeth 2020)	Llywodraeth Cymru	Mewn ymgynghoriad
Dringo'n Uwch – Strategaeth 20 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2005
Strategaeth Mwyngloddiau Metel i Gymru	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	2002
Cynllun Gweithredu Priddoedd Cymru (Ymgynghoriad)	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2008
Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru: Cymru'n Un, Cenedl Un Blaned	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2009
Datganiad Sefyllfa Llywodraeth Cymru ar y Polisi Strategol ar Ddŵr	Llywodraeth Cymru	2011
Cymru Carbon Isel	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2010
Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2010
Chwyldro Carbon Isel – Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2010
Paratoi Cymru ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd. Ynni Cymru: Newid Carbon Isel	Llywodraeth Cymru	2012
Strategaeth Wastraff Genedlaethol i Gymru: Tuag at Ddyfodol Diwastraff 2009- 2050	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2010
Nodiadau Cyfarwyddyd Cynllunio Mwynau	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Amrywiol
Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn – Strategaeth Newydd ar gyfer Ffermio	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2009
Strategaeth Trafnidiaeth Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2008
Polisi Cynllunio Mwynau Cymru	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	2001
Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (2007-2013 a 2014-2020)	Llywodraeth Cymru	2010
Strategaeth Ddŵr sy'n dod i'r amlwg i Gymru	Llywodraeth Cymru	

Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru	Partneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd	2010
Gwneud y Mwyaf o Arfordir Cymru: Strategaeth Reoli ICMZ ar gyfer Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2007
Cynllun Gofodol Morol Cymru sy'n dod i'r amlwg	Llywodraeth Cymru	
Strategaeth Goetiroedd i Gymru	Comisiwn Coedwigaeth Cymru	2009

Wrth nodi cynlluniau, polisiau a rhaglenni sy'n berthnasol i Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru, rydym wedi canolbwyntio ar y cynlluniau hynny sy'n debyg o ran maint i Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru neu sy'n debygol o effeithio'n uniongyrchol ar y dalgylchoedd yn Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru. Wrth i gynlluniau a phrosiectau gael eu datblygu yn y fframwaith a ddarperir gan y Cynllun Rheoli Basn Afon, rhagwelir y bydd goblygiadau unrhyw gynlluniau lleol hefyd yn cael eu hystyried. Mae rhai cynlluniau sy'n ymdrin yn gynhwysfawr ag Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru, er enghraifft cynlluniau datblygu awdurdod lleol. Yn hytrach na rhestru'r rhain yn unigol, rydym wedi nodi'r math o gynllun, a phan fyddwn yn gwneud yr asesiad byddwn yn ystyried yr holl gynlluniau o'r math hwn sy'n berthnasol i Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru.

Tabl 2: Cynlluniau, polisiau a rhaglenni sy'n berthnasol i Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru

Polisi / Cynllun / Rhaglen	Cyhoeddwyd gan	Blwyddyn
Cynlluniau Datblygu Unedol / Cynlluniau Datblygu Lleol (Amrywiol)	Awdurdodau Lleol - Amrywiol	Amrywiol
Cynlluniau Mwynau a Gwastraff	Awdurdodau Lleol - Amrywiol	Amrywiol
Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri 2010-15	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	2010
Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2010- 2015	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	2010
Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2009 – 2013	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	2009
Cynlluniau Rheoli Traethlin: 20 Trwyn Larnog i Benrhyn y Santes Ann (De Cymru) 21 Penrhyn y Santes Ann i Benygogarth (Gorllewin Cymru)	Partneriaethau Grŵp Arfordirol	2010 / 11

22 Penygogarth i'r Alban (Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru)		
Cynllun Gweithredu ynghylch Eogiaid Dalgylch Gorllewin Cymru	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	1997
Cynllun Rheoli AHNE Pen Llŷn 2010-15	Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid	
Cynlluniau Rheoli AHNE:		
Cynllun Rheoli AHNE Gŵyr	Dinas a Sir Abertawe	2006
Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2009-2014	AHNE Ynys Môn	2009
Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd 2009 – 2014	AHNE Bryniau Clwyd	2009
Strategaethau ar gyfer Rheoli Tynnu Dŵr o Ddalgylch (CAMS) - Tynnu Dŵr – Cael y Cydbwysedd Cywir (Amrywiol)	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Amrywiol
Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd Dalgylch Gorllewin Cymru (Amrywiol)	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	2009
Strategaethau Rheoli Dŵr Wyneb (Amrywiol)	Awdurdodau Lleol – amrywiol	Amrywiol
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2011-13	Dŵr Cymru	2011
Cynlluniau Sychder	Dŵr Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	I'w gadarnhau 2012
Cynlluniau Rheoli Llysywod ar gyfer y Deyrnas Unedig: Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru	Defra	2010